

## ❖ YMWELIAD Y DOETHION

‘Wedi i Iesu gael ei eni ym Methlehem Jwdea yn nyddiau’r Brenin Herod, daeth seryddion o’r dwyrain i Jerwsalem a holi, “Ble mae’r hwn a anwyd yn frenin yr Iddewon? Oherwydd gwelsom ei seren ef ar ei chyfodiad, a daethom i’w addoli.”’ (Mathew 2:1–2)

Mor gyfarwydd yw hanes genedigaeth Iesu Grist a’r cymeriadau sy’n gysylltiedig â’r digwyddiad y bu i Moses a’r proffwydi ddweud amdano, cyn ei ddod. ‘Iesu yw, gwir Fab Duw, Ffrind a Phrynwr dynol-ryw.’

Wrth feddwl am y doethion/seryddion a ddaeth o’r dwyrain, cyfeirïaf yn bennaf at yr hyn fu’n gyfrwng i’w harwain i Fethlehem at Waredwr y byd. Yn ôl pob sôn, paganiaid oeddent, nad oedd yn credu yn yr Ysgrythurau Sanctaidd nac yn credu yn Nuw. Beth felly oedd y cyfrwng a ddefnyddiodd yr Arglwydd i dynnu eu sylw at ddigwyddiad Bethlehem? Wel, y cyfrwng yr oeddent yn gyfarwydd ag ef, sef seren.

Dyma nhw wrthi o ddydd i ddydd yn astudio’n fanwl ac yn darganfod rhywbeth newydd, perthnasol i’r sêr. Mae’r geiriau yn Efengyl Mathew yn dweud eu bod wedi gweld ei ‘seren ef’. Mae’n amlwg fod y seren honno’n wahanol, a’i bod yn mynnu eu sylw. Duw yn gweithredu drwy’r hyn oedd yn gyfarwydd. Gallwn ei galw yn ‘Seren Bethlehem’.

Duw yn defnyddio’r cyfarwydd i arwain y seryddion at Iesu Grist. Duw yn defnyddio eu hiaith hwy i fod yn gyfrwng cymorth i’w harwain at Feseia’r Arglwydd. Ond nid arweiniad yn unig a gawsant. Darllenwn am eu dymuniad i addoli. A deallwn iddynt fod yn llawen dros ben; iddynt ddod â rhoddion; iddynt fynd yn ôl i’w gwlad ar hyd ffordd arall. Mae’r cyfan yn dweud eu bod wedi mwynhau’r profiad.

Soniais ar y dechrau fod hanes genedigaeth Iesu Grist yn gyfarwydd. Clywsom am y cymeriadau sydd ynghanol cyffro’r ymweliad â’r Baban mewn cadachau. Yn hanes y doethion, golygai ddilyn seren, a chadw llygaid arni o hyd ac o hyd, nes cyrraedd y lle. Petaent wedi colli golwg ar y seren, mi fyddent wedi colli’r profiad.

Beth fydd yn ein harwain i Fethlehem y Nadolig hwn? A gawn ni ein harwain gan Dduw trwy ei seren ef? Cyrhaeddwn y fangre, gan addoli, yn llawen, gyda rhoddion, gan ddychwelyd ar hyd ffordd arall wedi’r ymweliad, wedi’r profiad. Bendith arnoch. ‘Tua Bethlem dref awn yn fintai gref ac addolwn ef.’

**R. O. Jones**